



Mae'r yl hon yn nodi buddugoliaeth goleuni dros dywyllwch a daioni dros ddrygioni – gydag arwyddocâd goleuadau'n dangos goleuni dros dywyllwch a chred y bydd daioni bob amser yn trechu drygioni.

Y noson cyn Diwali yw Narak Chaturdasi, ac mae'n symbol o'r diwrnod y bu farw'r cythraul Hind aidd Narakaasura.

Dychwelodd y Duw Hind aidd yr Arglwydd Rama a'i wraig Sita i'w teyrnas yng ngogledd India ar ôl cael eu halltudio yn dilyn gorchfygiad brenin y cythreuliaid, Ravanna – fel y dywedir yn stori Diwali, Ramayana.

Am beth mae stori Diwali, Ramayana, yn sôn?

Esbonnir y defnydd o oleuadau yn stori Diwali, Ramayana (Llun: Getty Images)

Yr Arglwydd Rama yw prif ganolbwynt y Ramayana, gyda'r duw Hind aidd yn gadael ei deyrnas i fyw fel alltud am 14 mlynedd.

Tra'n alltud, mae ei wraig Sita yn cael ei herwgipio gan frenin y cythreuliaid, Ravana (a oedd yn frenin Lanka - neu Sri Lanka fel y'i gelwir heddiw).

Bu Rama, a deithiodd gyda'i frawd Laxman, yn ymladd dros Sita gan ei hachub o grafangau Ravana ar ôl ei drechu.

Mae'r stori'n adrodd sut y denwyd chwaer Ravana, Shoorpnakha – a oedd yn falch iawn o'i harddwc

dd ¶

Yna aeth Shoorpnakha at Ravana a dweud wrtho am y digwyddiad cyfan a gofyn iddo ddial arnynt.

Anfonodd Ravana gythreuliaid i ysbio arnynt, ond dywedodd yr ysbwyr fod yna ddynes hardd iawn o'r enw Sita - roedd ei harddwch wedi dal llygad Ravana.

Roedd eisiau ei phriodi, ac un diwrnod anfonodd gythraul a newidiodd yn hydd aur hardd a aeth heibio i'w cwt gan dynnu sylw Sita.

Gofynnodd Sita i Rama a Laxman ddal y carw euraidd hwnnw iddi, ond dim ond ffordd o dynnu sylw'r brodyr oedd hyn, ac wedi hynny, cipiodd y cythraul Sita.

Defnyddiodd Sita ei deallusrwydd i adael llwybr o emwaith er mwyn i'r brodyr allu dod o hyd iddi – gyda chymorth cyfaill yr Arglwydd Rama, yr Arglwydd Hanuman – bu iddynt adeiladu pont a elwir yn Ram Setu (Pont Adam) i groesi'r ynys i ddod o hyd i Sita.

